# Gwybodaeth am Fwydod

Mae mwydod yn hir ac yn denau. Nid oes ganddynt freichiau na choesau.

Mae gan fwydod llawer o gylchoedd o amgylch eu cyrff. Gelwir y rhain yn segmentau.

Mae mwydod yn defnyddio'u croen i anadlu. Nid oes ganddynt ysgyfaint fel anifeiliaid eraill. Rhaid iddynt gadw'n llaith er mwyn cadw'n fyw.

Mae gan fwydod flew bach ar hyd eu cyrff. Mae'r rhain yn helpu'r mwydod i symud a llithro drwy'r pridd.

Mae mwydod yn bwyta dail, planhigion, blodau sydd wedi marw, a hen lysiau a ffrwythau.

Mae mwydod yn helpu i gymysgu'r gwahanol haenau o bridd gyda'i gilydd. Maent yn cloddio o dan y ddaear, gan greu twneli sy'n help mawr i symud y pridd o gwmpas.

Mae mwydod yn helpu i chwalu planhigion a blodau sydd wedi marw.

Mae mwydod sydd yn cael eu geni yn deor o gocŵn bach.

Does dim llygaid gan fwydod ond gallant synhwyro golau. Mae mwydod yn hoff o fyw mewn lleoedd oer, tywyll a llaith.

ewch i twinkl.cymru

# Gofalu am Fwydod yn yr Abwydfa

Ychwanegwch ddŵr i'r abwydfa ond dim ond os yw'r cynnwys yn sych. Mae angen amodau llaith ar fwydod i oroesi – ond nid ydynt yn hoffi pridd gwlyb. Defnyddiwch chwistrellwr i ychwanegu ychydig o ddŵr ar y tro.

Peidiwch ag ychwanegu gormod o fwyd gyda'i gilydd – ychwanegwch ychydig o fwyd ar y tro, pan fydd y bwyd blaenorol wedi cael ei fwyta.

Dewiswch y bwyd yn ofalus – ni ddylai mwydod fwyta bwyd er enghraifft cynnyrch llaeth, cig, pysgod, nionyn a garlleg. Ceisiwch ychwanegu croen banana neu afal, bagiau te a phapur wedi ei rwygo.

Cofiwch dorri a malu'r bwyd yn ddarnau bach er mwyn ei gwneud hi'n rhwyddach i'r mwydod eu bwyta.

Nid yw mwydod yn hoffi golau felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r abwydfa mewn man tywyll.

Cadwch yr abwydfa mewn tymheredd cyson – nid yn rhy boeth ac nid yn rhy oer.

twinkl
ewch i twinkl.cymru